

DATGANIAD CYFRINACHEDD AR GYFER Y GWASANAETH CYNGHORI

Datganiad Cyfrinachedd

Mae'r Gwasanaeth Cyngori yn y Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, wedi ymroi i ddarparu gwasanaeth proffesiynol a chred bod ei ddefnyddwyr yn haeddu'r hawl i gyfrinachedd. O ganlyniad, heblaw am yr eithriadau prin a nodir ar y daflen *Y Gwasanaeth Cyngori a Gwarchod Data*, ni chaiff unrhyw beth a ddatgelir i gynghorwyr ei drosglwyddo i unrhyw un y tu allan i'r Gwasanaeth heb ganiatâd y cleient.

Beth a olygir wrth Gyfrinachedd?

Mae cyfrinachedd yn cwmpasu nid yn unig yr hyn a ddywedir mewn sesiwn, ond hefyd y ffaith fod cleient wedi defnyddio'r Gwasanaeth. Mae myfyriwyr yn aml yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan diwtor neu Bennaeth Adran sy'n pryderu amdanynt. Mewn achosion o'r fath nid yw'r Cynghorwyr yn adrodd yn ôl i'r tiwtor fel mater o drefn. Os yw'r person a gyfeiriodd y myfyriwr yn gofyn a ydyw wedi mynychu sesiynau cyngori, mae'n bosibl y caiff hynny ei gydnabod yn fyr, yn enwedig os tybir ei fod o fudd i'r myfyriwr (a/neu'r Prifysgol). Nid yw Deddf Gwarchod Data 1998 yn diffinio gwybodaeth o'r fath fel "data personol sensitif".

"Data Personol Sensitif"

Gall cofnodion y Gwasanaeth Cyngori gynnwys data personol sensitif ac felly gofynnir am ganiatâd y cleient cyn y gwneir nodiadau. Yn ddelfrydol mae hyn yn digwydd cyn i'r cyngori gychwyn, ond mae'n bosibl y bydd yn digwydd ar ddiwedd y sesiwn gyntaf, yn enwedig os yw'r cleient yn cyrraedd mewn cyflwr emosiynol gofidus. Rhoddir y ddogfen *Y Gwasanaeth Cyngori a Gwarchod Data* i'r cleientiaid a gofynnir iddynt ei llofnodi i gadarnhau eu bod yn rhoi caniatâd.

Os nad yw'r cleient am i unrhyw ddata gael ei gofnodi, mae gan y Cynghorydd ddau ddewis:

1. Egluro na ellir darparu'r Gwasanaeth heb y caniatâd hwnnw gan fod cymryd nodiadau yn rhan hanfodol o'r gwasanaeth. Yn yr achos hwn, darperir gwybodaeth am gyrff cyngori a chefnogi eraill.
2. Cynnig un sesiwn gychwynol i'r cleient ac ar ddiwedd y sesiwn honno egluro pam mae angen caniatâd ar y Gwasanaeth Cyngori i fynd ymlaen. Os gwrthodir rhoi caniatâd o hyd, ni chynigir rhagor o sesiynau. Gellir cadw cofnod fod y cleient wedi mynychu sesiwn heb ofyn am ganiatâd penodol gan nad yw hyn yn ddata sensitif.

Apeliadau/Pwyllgorau Disgyblu

Bydd y Cynghorydd bob amser yn ceisio cael caniatâd penodol y cleient i ryddhau gwybodaeth i apeliadau neu bwyllgorau disgyblu, neu sefyllfaoedd academaidd eraill (e.e. a yw'r myfyriwr mewn cyflwr priodol yn emosiynol i sefyll arholiad neu asesiad). Nid oes angen caniatâd penodol mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os yw'r cynghorydd yn credu bod y cleient, neu berson arall, neu eiddo, mewn perygl o niwed neu ddifrod os na ddarperir tystiolaeth.

Canllawiau Gweithredu

Nod y Gwasanaeth Cynghori yw cynnig yr arfer orau ac i weithio o fewn Fframwaith Moesegol y *British Association for Counselling and Psychotherapy*. Mae'r ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer cynghori mewn lleoliad cymharol breifat, ac mae nodiadau achos pob Cynghorydd yn cael eu storio dan glo mewn cwpwrdd ffeilio ar wahân. Caiff data ar bapur nad oes mo'i angen bellach ei ddiinstrio trwy ei rwygo'n fân. Mae'r staff sy'n trefnu apwyntiadau ar gyfer y Cynghorwyr yn gwneud hynny gan barchu cyfrinachedd. Cedwir cyfrinachedd yn unol â'r sefyllfaoedd a ddisgrifir yn y paragraff "Cyfrinachedd" ar y daflen *Y Gwasanaeth Cynghori a Gwarchod Data*. Bwriedir i'r datganiad hwn gael ei ddarllen ar y cyd â'r ddogfen honno.

Paratowyd y polisi gan Jean Harris, Cynghorydd, Awst 2004

Adolygwyd a diweddarwyd gan Jean Harris, Cynghorydd, Awst 2007

& Awst 2010

& Awst 2014

& Mehefin 2015